| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** **General Certificate of Secondary Education**

139/52

**DYLUNIO A THECHNOLEG**

**PAPUR 2**

**MAES PENODOL: TECHNOLEG BWYD**

(Haen Sylfaenol – Graddau G i C)

P.M. DYDD MAWRTH, 6 Mehefin 2006

(1½ awr)

| | Gadewch yn wag |
|---|---|
| **Cwestiwn 1** | |
| **Cwestiwn 2** | |
| **Cwestiwn 3** | |
| **Cwestiwn 4** | |
| **Cwestiwn 5** | |
| **CYFANSWM Y MARCIAU** | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Bydd angen pensiliau lliw arnoch ar gyfer yr arholiad hwn.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*


*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

**1.** Mae llawer o gynhyrchion bwyd yn cael eu datblygu i annog pobl i fwyta'n iach.

*(a)* **Cwblhewch** y diagram isod i ddangos prif **negeseuon bwyta'n iach** heddiw.

*Mae un enghraifft wedi'i gwneud i chi.* [4]

............................................................




............................................................

............................................................

Bwytewch lai o halen

............................................................

*(b)* Dangosir detholiad o faetholynnau isod.


**Braster** **Protein** ~~**Calsiwm**~~ **Carbohydradau** **Haearn** **Fitamin C**

**Cwblhewch** y tabl isod trwy ddewis y maetholyn sydd i'w gael ym **mhob un** o'r grwpiau bwyd canlynol. *Mae un enghraifft wedi'i gwneud i chi.* [5]

| ***Grwpiau Bwyd*** | ***Maetholyn*** |
|---|---|
| Lemwnau, tomatos, orennau. | |
| Bara, pasta, tatws. | |
| Caws, llaeth, iogwrt. | *Calsiwm* |
| Olew llysiau, eidionod *(beefburgers)*, creision. | |
| Sbigoglys *(spinach)*, bricyll *(apricots)*, cig coch. | |
| Pysgod, codlysiau *(pulses)*, cig. | |

*(c)* Mae gwneuthurwyr yn cynhyrchu dewisiadau *(ranges)* arbennig o fwydydd i annog plant ifanc i fwyta prydau iachach.

**Astudiwch** y wybodaeth faethol isod o becyn yn y dewis *'Gwych i blant'* o fwydydd.



| MAETH | |
|---|---|
| Gwerthoedd nodweddiadol | Pob Pecyn 200g |
| Egni kj | 880 |
| Protein g | 19.0 |
| Carbohydrad g | 23.4 |
| siwgrau yn hwn g | 3.2 |
| Braster g | 4.2 |
| Ffibr g | 1.8 |
| Halen g | 0.6 |

(i) **Nodwch** faint o halen sydd ym mhob pecyn 200g. [1]

..............................................................................................................................................

(ii) **Nodwch** faint o siwgr sydd ym mhob pecyn 200g. [1]

..............................................................................................................................................

*(ch)* **Astudiwch** y ddelwedd isod.




**Rhowch ddau** reswm pam byddai rhieni yn dymuno prynu'r cynnyrch hwn i'w plant.
2 × [2]

**Rheswm 1:** ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**Rheswm 2:** ..............................................................................................................................

..............................................................................................................................................



**Trosodd.**

**2.** Mae llwyddiant cynnyrch bwyd yn dibynnu ar ddewis y defnyddiau cywir.

*(a)* **Rhestrwch ddau** fath gwahanol o flawd ac, ar gyfer **pob un**, **nodwch** gynnyrch bwyd y gellir ei wneud gyda'r blawd a enwyd. 2 × [2]
*Mae un enghraifft wedi'i gwneud i chi.*

**Math o flawd:** Blawd plaen gwenith cyflawn
**Cynnyrch:** Bisgedi digestif

**Math o flawd:** ..............................................................................

**Cynnyrch:** ..............................................................................

**Math o flawd:** ..............................................................................

**Cynnyrch:** ..............................................................................

*(b)* Wrth ddatblygu cynhyrchion bwyd, mae angen i ddylunwyr wybod beth yw **swyddogaeth** defnyddiau bwyd. Dangosir rhai o'r rhain isod.

**Rhoi blas** **Beindio** **Codydd** *(Raising agent)* **Breuo** *(Shortening)* **Swmpuso** *(Bulking)* **Melysu**

**Cwblhewch** y tabl isod trwy nodi **prif** swyddogaeth **pob** defnydd bwyd mewn cynnyrch bara. *Defnyddiwch bob swyddogaeth unwaith yn unig.* [5]

| ***Defnydd bwyd*** | ***Swyddogaeth mewn cynnyrch bara*** |
|---|---|
| Blawd | |
| Burum | |
| Margarin | |
| Halen | |
| Dŵr | |


*(c)* Mae'r tabl isod yn dangos y camau mewn cynhyrchu cynnyrch bara.
**Cwblhewch** y tabl trwy ysgrifennu rhif wrth ymyl **pob** cam i ddangos y drefn gynhyrchu gywir.
*Mae'r cam cyntaf wedi'i wneud i chi.* [6]

| ***Cam mewn cynhyrchu bara*** | ***Trefn gynhyrchu*** |
|---|---|
| Cymysgu | |
| Oeri | |
| Tylino | |
| Pobi | |
| Pwyso a mesur y cynhwysion | 1 |
| Siapio | |
| Codi *(Proving)* | |

*(ch)* Mae gwneuthurwyr bwyd yn dylunio cynhyrchion i gyd-fynd ag anghenion penodol y defnyddiwr. **Cwblhewch** y paneli isod trwy roi **dau** newid i ddangos sut gall y pizza hwn gael ei addasu i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwahanol. 3 × [2]

**Defnyddiau bwyd yn y topin:**

Puree tomato, nionyn/winwnsyn, caws, ham, olifau du, perlysiau sych



**Defnyddiau bwyd yn y gwaelod:**

Blawd, burum, menyn, dŵr, halen

| Newidiadau ar gyfer pizza *llysieuol* | Newidiadau ar gyfer pizza *rhatach* |
| --- | --- |
| ........................................ | ........................................ |
| ........................................ | ........................................ |
| ........................................ | ........................................ |
| ........................................ | ........................................ |

| Newidiadau ar gyfer pizza *iachach* |
| --- |
| ........................................ |
| ........................................ |
| ........................................ |
| ........................................ |


**3.** *(a)* **Nodwch** y **tri** dull gwahanol a ddefnyddir gan *wneuthurwyr* i gynyddu oes silff cawl. [3]

**Dull 1:** ....................................................................................................................................

**Dull 2:** ....................................................................................................................................

**Dull 3:** ....................................................................................................................................

*(b)* **Defnyddiwch** y label o'r carton o gawl a ddangosir isod i ateb y cwestiynau sy'n dilyn.




(i) **Rhowch** y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid bwyta'r cawl. [1]

..........................................................................................

(ii) **Nodwch** sut y dylai'r cawl gael ei storio gartref. [2]

**Tymor byr:** ....................................................................................................................

**Tymor hir:** .....................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*


(iii) **Rhowch** fanylion y prif gamau y byddech yn eu cymryd i gael y cawl yn barod ar gyfer ei weini. [2]

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

.....................................................................................................................................................

(iv) **Nodwch** ystyr y symbolau hyn sydd i'w gweld ar y label. [2]



(I) .....................................................................................................................................



(II) .....................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Mae gwneuthurwr bwyd yn ymateb i'r farchnad gynyddol am fyrbrydau a all ffitio i mewn i flwch cinio plentyn ysgol.

Bydd cynnyrch newydd sy'n cynnwys bisgedi sawrus *(savoury)* a throchiad *(dip)* caws yn cael ei alw'n *SNAC 2 GO*.


**Dyluniwch** ddelwedd addas ar gyfer clawr y pecyn.

**Lluniadwch** eich delwedd ar yr amlinelliad a ddangosir isod.

**Rhoddir marciau am:**

(i) delwedd addas sy'n cynnwys enw'r cynnyrch; [5]

(ii) y defnydd o liw ac ansawdd y cyfathrebu. [4]



**4.** Rhaid i wneuthurwyr bwyd ddilyn system sicrhau ansawdd.
Mae hylendid personol da a glanhau cyfarpar yn gywir yn hanfodol wrth wneud cynhyrchion bwyd.



*(a)* **Disgrifiwch**, gyda rhesymau, **bedair** rheol hylendid *wahanol* y mae'n rhaid i weithwyr bwyd eu dilyn. 4 × [2]

**Rheol 1:** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

**Rheol 2:** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

**Rheol 3:** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

**Rheol 4:** ..............................................................................................................

..............................................................................................................

*(b)* **Esboniwch** pam mae'r rheolau hyn mor bwysig wrth gynhyrchu bwyd ar raddfa fawr. [2]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* **Nodwch** y **pedwar** amod sydd eu hangen ar gyfer twf pob math o facteria. [4]

**Amod 1:** ..............................

**Amod 2:** ..............................

**Amod 3:** ..............................

**Amod 4:** ..............................

*(ch)* Wrth weithgynhyrchu cynnyrch, bydd nifer o wiriadau *(checks)* rheoli ansawdd yn cael eu gwneud.
Mae **dau** fath o wiriad rheoli ansawdd a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu *bisged* wedi'u rhestru isod. **Disgrifiwch** y gwiriadau hyn. 2 × [2]

(i) **Gwiriad gweledol:** ..............................

..............................


..............................

(ii) **Gwiriad halogiad** *(contamination)* **ffisegol:** ..............................

..............................

..............................

*(d)* Defnyddir cyfarpar wedi'i reoli gan gyfrifiadur wrth gynhyrchu cynhyrchion bwyd ar raddfa fawr megis bisgedi. Mae'r llun isod yn dangos torwyr cylchdro *(rotary cutters)*.



**Esboniwch un** o fanteision defnyddio'r cyfarpar a ddangosir uchod. [2]

..............................

..............................

..............................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Mae gwneuthurwr pwdinau oer yn bwriadu datblygu ei ddewis *(range)* o bwdinau traddodiadol. Mae ymchwil yn dangos y byddai'n llesol i gwsmeriaid gael mwy o ffrwythau yn eu diet.



*(a)* **Brasluniwch**, **lliwiwch** a **labelwch ddau** ddyluniad *gwahanol* ar gyfer pwdin **haenog** *(layered)* sy'n **cynnwys ffrwythau**.

Rhaid i'r cynnyrch:

- bod yn addas ar gyfer pedwar o bobl;
- cynnwys tair neu ragor o haenau;
- cynnwys ffrwythau;
- cael casin neu waelod diddorol.

**Rhoddir marciau am:**

(i) dylunio **pwdin haenog** diddorol sy'n cynnwys **ffrwythau**; 2 × [3]

(ii) labelu'n fanwl yr **holl** ddefnyddiau bwyd a ddefnyddir i wneud y cynnyrch; 2 × [4]

(iii) ansawdd y cyfathrebu, gan gynnwys **trawstoriad** trwy'r cynnyrch. 2 x [4]

| Dyluniad 1 | Peidiwch â lluniadu'r defnydd pacio |
|---|---|



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

| Dyluniad 2 | Peidiwch â lluniadu'r defnydd pacio |
|---|---|

**Ticiwch** (✓) y blwch i ddangos eich dyluniad **gorau**. Dyluniad 1 ☐ Dyluniad 2 ☐

*(b)* **Nodwch dri** rheswm *synhwyraidd (sensory)* pam byddai eich syniad gorau yn apelio at gwsmeriaid. [3]

**Rheswm synhwyraidd 1:** ..............................................................................................

**Rheswm synhwyraidd 2:** ..............................................................................................

**Rheswm synhwyraidd 3:** ..............................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**